# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 19 Gorffennaf 2017

Amser y cyfarfod: 13.30

## 86(v3)

### 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

**Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant**

Steffan Lewis (Dwyrain De Cymru): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am y dirywiad mewn diogelwch mewn carchardai ieuenctid yn sgil cyhoeddi adroddiad blynyddol Prif Arolygydd Carchardai Cymru a Lloegr EM ar gyfer 2016-17?

**Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig:**

David Melding (Canol De Cymru): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am y canllawiau cyfredol ar gyfer rheoli a chael gwared ar strwythurau peryglus, ar ôl i ddyn farw pan ddisgynnodd adeilad yn Sblot ddoe?

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 5 Datganiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid: Diwygio Cyllidol - Gwersi gan yr Alban

(30 munud)

## 6 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Gyfoeth Naturiol Cymru: Craffu ar adroddiad blynyddol a chyfrifon 2015-16

(60 munud)

**NDM6366** Nick Ramsay (Mynwy)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Gyfoeth Naturiol Cymru: Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2015-16 - a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Mehefin 2017.

Nodyn: Cafodd ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru i'r adroddiad ei dderbyn a'i gyhoeddi ar wefan y pwyllgor ar 5 Gorffennaf 2017 (Saesneg yn unig).

**Dogfen ategol:**

Adroddiad y Pwyllgor Cyllid

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 10.5 i ymestyn penodiad Cadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru

(5 munud)

**NDM6369** Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Pharagraffau 5(1) a 5(3) o Atodlen 1 i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, ac o dan Reol Sefydlog 10.5, yn ymestyn penodiad Isobel Garner fel cadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru am dair blynedd arall.

'Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013'

**Dogfen ategol:**

Adroddiad y Pwyllgor Cyllid

## 8 Dadl Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig

(60 munud)

**NDM6371** Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn credu:

a) bod Brexit yn galluogi pobl Cymru i gael mwy o reolaeth dros eu bywydau eu hunain drwy ddatganoli pwerau llywodraethol o dechnocrats anetholedig ym Mrwsel i Aelodau'r Cynulliad yng Nghaerdydd ac Aelodau Seneddol yn San Steffan;

b) y gall Brexit greu mwy o ffyniant ar gyfer amaethyddiaeth a'r economi wledig, drwy ddisodli'r CAP gan bolisi amaethyddol wedi'i deilwra'n arbennig ar gyfer anghenion penodol Cymru, gan gyfeirio'n arbennig at gadwraeth a diogelu'r amgylchedd yn seiliedig ar egwyddorion gwyddonol gan achosi costau cymesur i drethdalwyr a busnesau gwledig.

2. Yn credu y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu polisïau eraill wedi'u teilwra'n arbennig ar gyfer ardaloedd gwledig o fewn agenda lleoliaeth sy'n grymuso pobl leol drwy:

a) gwneud penderfyniadau cynllunio mawr gydag effaith andwyol sylweddol ar ansawdd bywyd, megis ffermydd gwynt ymwthiol, yn amodol ar refferenda lleol;

b) gwneud newidiadau mawr i'r ddarpariaeth o ysgolion gwledig a gwasanaethau addysgol eraill yn amodol ar ymgynghori lleol dilys;

c) hwyluso tai gwledig mwy fforddiadwy; a

d) rhoi mwy o flaenoriaeth i ddarparu cyfleusterau GIG mewn trefi gwledig llai.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn credu bod gadael yr Undeb Ewropeaidd yn cynnig y cyfle i ddatganoli mwy o bwerau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

2. Yn cydnabod y bydd cyfle i leihau faint o fiwrocratiaeth sy'n wynebu ffermwyr Cymru ac yn disgwyl i Lywodraeth Cymru weithio gyda Llywodraeth y DU i gyflwyno fframwaith ôl-Brexit sy'n cefnogi ffermwyr Cymru.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud mwy i gefnogi cymunedau gwledig ledled Cymru, drwy ddatblygu mwy o bolisïau wedi'u teilwra'n arbennig ym meysydd iechyd, addysg a thai.

*[Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliant 2 yn cael ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 2.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Yn credu bod y dull gweithredu presennol o ran Brexit drwy Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) Llywodraeth y DU yn rhwystro'r Cynulliad rhag arfer pwerau

datganoledig ac yn peryglu'r rheolaeth sydd gan bobl yng Nghymru dros eu bywydau.

## 9 Cyfnod pleidleisio

## 10 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM6370** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Gamblo cymhellol yng Nghymru

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 19 Medi 2017

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 12 Gorffennaf 2017 i'w hateb ar 19 Gorffennaf 2017

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**
**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith

**1. Rhianon Passmore (Islwyn):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i ddatblygu twristiaeth yn Islwyn er mwyn cynorthwyo adfywio economaidd? OAQ(5)0199(EI)

**2. Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru i hyrwyddo datblygu economaidd yng ngorllewin Cymru yn ystod y pumed Cynulliad? OAQ(5)0201(EI)

**3. Steffan Lewis (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu economaidd yng nghymoedd de Cymru? OAQ(5)0203(EI)

**4. Hannah Blythyn (Delyn):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cynnal digwyddiadau mawr yng ngogledd Cymru? OAQ(5)0195(EI)

**5. David J Rowlands (Dwyrain De Cymru):** Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i newid statws Cymru fel rhan dlotaf y Deyrnas Unedig? OAQ(2)0212(EI)

**6. Lynne Neagle (Torfaen):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu sut y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i wella ffyniant yng nghymoedd de Cymru? OAQ(5)0207(EI)

**7. Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr amgueddfa bêl-droed genedlaethol arfaethedig? OAQ(5)0205(EI)**W**

**8. David J Rowlands (Dwyrain De Cymru):** Pa seilwaith sy'n cael ei roi ar waith i ddenu busnes i ogledd Torfaen? OAQ(5)0204(EI)

**9. Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu cefnogaeth bresennol Llywodraeth Cymru ar gyfer busnesau bach yng ngogledd Cymru? OAQ(5)0208(EI)

**10. Lynne Neagle (Torfaen):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer yr economi yn Nhorfaen ar gyfer gweddill y pumed Cynulliad? OAQ(5)0206(EI)

**11.** **Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau ar gyfer parc busnes modurol newydd yng Nglyn Ebwy? OAQ(5)0194(EI)

**12.** **Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am y broses o flaenoriaethu 12 gorsaf rheilffordd newydd? OAQ(5)0210(EI)

**13.** **Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi manylion cynlluniau Llywodraeth Cymru i wella'r rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus o fewn Dinas a Sir Abertawe a'r ardaloedd cymudo cyfagos? OAQ(5)0193(EI)

**14.** **Neil McEvoy (Canol De Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am greu tîm criced rhyngwladol i Gymru? OAQ(5)0196(EI)

**15.** **Rhianon Passmore (Islwyn):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn gwella gwasanaethau rheilffyrdd yn Islwyn? OAQ(5)0200(EI)

## Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon

**1.** **Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am nifer y cleifion sy'n cael eu cyfeirio am driniaeth orthopedig yng ngogledd Cymru? OAQ(5)0201(HWS)**W**

**2.** **Leanne Wood (Rhondda):** Pa ymdrechion y mae Llywodraeth Cymru yn eu gwneud i gadw staff presennol yn y gwasanaeth iechyd yng Nghymru? OAQ(5)0196(HWS)

**3.** **Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am nifer yr anafiadau a gaiff eu trin mewn ysbytai yng Nghymru sydd wedi'u hachosi gan frathiadau cŵn? OAQ(5)0210(HWS)

**4.** **Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** Pa gamau y bydd Ysgrifennydd y Cabinet yn eu cymryd i wella gwasanaethau i gleifion canser yng Nghymru yn 2017? OAQ(5)0197(HWS)

**5.** **Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd o ran ymchwil ac arloesedd clinigol yn y GIG yng Nghymru? OAQ(5)0199(HWS)

**6.** **Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am y ddarpariaeth bresennol o feddygfeydd yng Nghymru? OAQ(5)0202(HWS)

**7.** **Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am safon meddygfeydd yng ngogledd Cymru? OAQ(5)0209(HWS)**W**

**8.** **Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am lesiant gweithlu GIG Cymru? OAQ(5)0198(HWS)**W**

**9.** **Eluned Morgan (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am wella gwasanaethau iechyd yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru?  OAQ(5)0208(HWS)

**10.** **Neil McEvoy (Canol De Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am amseroedd aros ar gyfer apwyntiadau meddygon teulu? OAQ(5)0203(HWS)

**11.** **Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddefnyddio radiwm 223 yn GIG Cymru? OAQ(5)0205(HWS)

**12.** **Huw Irranca–Davies (Ogwr):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am y cyfraniad y mae digwyddiadau diwrnod chwaraeon yn ei wneud i'r agenda iechyd a lles yng Nghymru? OAQ(5)0194(HWS)

**13.** **Dawn Bowden (Merthyr Tudful a Rhymni):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer ymchwil ynghylch mesothelioma yng Nghymru? OAQ(5)0204(HWS)

**14.** **Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** Pa effaith y mae'r cyflwyno'r contract meddyg iau newydd yn Lloegr wedi'i chael ar hyfforddeion histopatholeg yng Nghymru? OAQ(5)0195(HWS)

**15.** **Sian Gwenllian (Arfon):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am y ddarpariaeth o wasanaethau meddygol drwy gyfrwng y Gymraeg? OAQ(5)0207(HWS)**W**